



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Mae cofrestru yn newid: Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@
gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2020 Gofal Cymdeithasol
Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir ailgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylid anfon ymholiadau ar gyfer ailgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn fformat hawdd ei ddeall, mewn testun mawr neu fformatau eraill, os bydd angen.

Mae copïau ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cofrestru gweithwyr cartref gofal i oedolion.....	6
Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion.....	8
Cofrestru gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd...10	
Cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant.....	11
Newidiadau i gofrestru ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol.....	12
Taluffioedd.....	15
Dyfodol cofrestru.....	16
Crynodeb o'r camau nesaf.....	18

Cyflwyniad

Cefndir yr ymgynghoriad 'mae cofrestru yn newid'

Roedd ein hymgyngoriad 'mae cofrestru yn newid' yn nodi trefniadau newydd yn ymwneud â:

- ffyrdd o gofrestru ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion
- canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion
- ffyrdd o gofrestru ar gyfer gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd
- ffordd newydd i weithwyr gofal preswyl i blant gymhwyso ar gyfer cofrestru
- ffordd fwy hyblyg o gydnabod gweithiwr gofal cymdeithasol fel rheolwr at ddibenion cofrestru
- talu ffioedd ar gyfer blynyddoedd dau a thri yn ystod cofrestriad unigolyn
- symleiddio categorïau o weithwyr ar y Gofrestr.

Gwnaethom bopeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sawl a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig wedi cael cyfle i wneud sylwadau. I'r perwyl hwnnw, roeddem wedi:

- anfon y ddogfen ymgynghori at dros 12,000 o bobl
- rhoi'r ddogfen mewn man amlwg ar ein gwefan
- anfon nodiadau atgoffa mynych i annog pobl i gymryd rhan
- cynnal gweithdai i helpu pobl i ddeall y newidiadau arfaethedig
- rhoi gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn ein cylchlythyron
- anfon gwybodaeth am yr ymgynghoriad at bersonau cofrestredig a chyflogwyr.

Roedd y ddogfen ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd fersiynau eraill ar gael ar gais. Hefyd, derbyniom ymatebion na chyflwynwyd trwy ein harolwg ar-lein.

Derbyniom 136 ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y nifer hon yn unol â'r disgwyliadau, gan fod llawer o'r cynigion yn gyfarwydd i'r sector yn dilyn ymgysylltiad helaeth cyn lansio'r ymgynghoriad. O'r sawl a ymatebodd, dywedodd 70 y cant eu bod yn ymateb fel unigolyn, a dywedodd 30 y cant eu bod yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad.

O'r wybodaeth sydd ar gael, gwyddwn:

- y daeth y nifer fwyaf o ymatebion gan unigolion oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol
- daeth y nifer fwyaf o ymatebion gan sefydliadau oddi wrth gyflogwyr ac awdurdodau lleol
- hefyd, cyflwynwyd ymatebion ar ran eu haelodau gan undebau llafur a grwpiau cynrychiadol, megis Fforwm Gofal Cymru a Fforwm Cenedlaethol y Darparwyr.

Achubom ar gyfleoedd eraill i gasglu safbwyntiau o'r sector trwy gydol y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos ac ni ddibynnem ar ymatebion i'r ymgynghoriad yn unig, gan gwrdd â dros 500 o bobl mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae gennym bellach ddealltwriaeth dda o'r pethau y mae pobl eisiau i ni eu gwneud i'w cefnogi os awn ymlaen â'r cynigion.

Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, byddwn nawr yn mireinio ein gofynion er mwyn darparu eglurder a chysondeb i'r gweithlu ddod yn broffesiynol gofrestrdig.

Byddwn yn nodi'r gofynion ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion, gan eu cadw'n debyg i'r rhai ar gyfer gweithwyr gofal cartref, a byddwn yn cyhoeddi canllawiau ymarfer i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud fel gweithiwr sydd wedi'i gofrestru'n broffesiynol.

Bydd y gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd yn debyg i'r gofynion ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant.

Er mwyn darparu llwybrau cyson i gofrestru ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol, byddwn yn caniatáu i weithwyr gofrestru trwy'r broses sefydlu, naill ai trwy gwblhau *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan* neu'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos awydd iach am ddull mwy hyblyg o gofrestru rheolwyr gofal cymdeithasol a byddwn yn meddwl ymhellach am hyn, gan anelu at gwblhau gofynion cyn i'r cymwysterau rheoli newydd gael eu lansio ym mis Medi 2020.

O fis Ebrill 2020, rydym yn bwriadu caniatáu i nyrsys a therapyddion galwedigaethol wneud cais i gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol os oes ganddynt hefyd gymhwyster rheoli generig ar lefel 3 o leiaf a'u bod wedi'u hasesu ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol mewn lleoliad iechyd a gofal.

Byddwn yn gweithredu ein cynnig i symud i gofrestriad amodol ar gyfer blynyddoedd dau a thri yn ystod cofrestriad unigolyn, gan y bydd y newid gweinyddol hwn yn ein galluogi i gynnal cofrestr gywir ac effeithlon.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gennym trwy gydol yr adroddiad hwn. Mae pob adran yn rhestru'r cwestiynau a ofynnem, yn rhoi'r canrannau ar gyfer yr ymatebion a oedd yn cytuno ac yn anghytuno, ac yn rhoi sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae'r adran olaf yn nodi rhagor o fanylion am yr hyn a fydd yn digwydd nesaf.

Cofrestru gweithwyr cartref gofal i oedolion

Gofynnem:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi gweithwyr cartref gofal i oedolion gofrestru gan ddefnyddio'r cymwysterau a restrir yn y fframwaith cymwysterau presennol?

Cytuno	90%
Anghytuno	10%

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd fel gofyniad cychwynnol o ran cofrestru i weithwyr cartref gofal i oedolion, os nad oes ganddynt un o'r cymwysterau cydnabyddedig?

Cytuno	80%
Anghytuno	20%

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig ar gyfer llwybr cymhwysedd wedi'i gadarnhau dros dro rhwng 2020 a 2022, a fydd yn galluogi gweithwyr cartref gofal i oedolion gofrestru heb fod angen iddynt gwblhau cymhwyster ffurfiol?

Cytuno	80%
Anghytuno	20%

Cynigiom ofynion cofrestru a oedd fwy neu lai'r un fath â'r cyfnod cofrestru gwirfoddol o ddwy flynedd ar gyfer gweithwyr gofal cartref, a gefnogwyd yn glir gan yr ymatebwyr.

Hyd yn oed lle'r oedd anghytuno, nid oedd yn ymddangos bod y sylwadau'n anghytuno â'r cynigion, ond yn hytrach yn cwestiynu'r angen i gofrestru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn glir yn ei huchelgais i godi statws y gweithlu gofal cymdeithasol, gan amddiffyn y cyhoedd ar yr un pryd, ac mae'n gweld cofrestru'r gweithlu fel un o'r prif ffyrdd o wneud hyn.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Bydd hyn yn galluogi gweithwyr â chymwysterau hanesyddol, perthnasol i gofrestru heb orfod cwblhau cymhwyster pellach a bydd yn cydnabod eu cymwysterau achrededig blaenorol."

"Mae hwn yn ddull synhwyrol a phragmatig, sy'n cydnabod y gwaith y mae gweithwyr unigol wedi'i wneud i gymryd cymwysterau i gydnabod eu gallu a'u cymhwysedd."

"Mae'n bwysig bod gweithwyr gofal cymdeithasol wedi'u cofrestru, bydd hyn yn rhoi cefnogaeth iddynt a hefyd yn eu galluogi i gael eu cydnabod yn ffurfiol fel gweithwyr proffesiynol."

"Mae'n bwysig dros ben, fel darparwr gofal, bod gennym gyfle i gadarnhau cymwyseddau o fewn ein gweithlu a chefnogi cadw gweithwyr gofal profiadol o ansawdd."

"Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir o ran cofrestru ar gyfer gofal cartref, ac felly mae'n bwysig, ac yn deg, i gael yr un darpariaethau ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal. Mae'n ymddangos yn iawn i gael cyfnod diffiniedig o amser ar gyfer hyn, gan wneud yn glir yr angen yn y tymor canolig a'r tymor hirach i ddechreuwy'r newydd ennill cymhwyster cydnabyddedig."

"Mae'r sector wedi croesawu'r gefnogaeth uniongyrchol gan staff Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y broses o gofrestru ar gyfer Gofal Cartref ac mae gofyn i hyn barhau ar gyfer cofrestru'r gweithlu Preswyl."

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai'r llwybr cymhwysedd a gadarnhawyd fod ar gael bob amser fel llwybr i gofrestru ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol. Dywedodd eraill na ddylai fod ar gael oherwydd, yn eu barn nhw, dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru'n broffesiynol fod â chymhwyster cydnabyddedig, neu'n gweithio tuag at un. Teimlwn fod gwneud y llwybr ar gael ar gyfer y cyfnod gwirfoddol yn gyfaddawd teg, gan y bydd yn helpu i annog gweithwyr profiadol i aros yn y sector.

Byddwn yn gosod y gofynion ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion erbyn mis Ebrill 2020 a byddant yn debyg i'r rhai ar gyfer gweithwyr gofal cartref. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ymarfer i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud fel gweithiwr sydd wedi'i gofrestru'n broffesiynol.

Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion

Gofynnwm:

A ydych chi o'r farn fod y safonau a'r disgwyliadau ar weithwyr a nodir yn y canllawiau ymarfer yn rhesymol a chyflawnadwy?

Cytuno	85%
Anghytuno	15%

A oes unrhyw fylchau yng nghynnwys y canllawiau ymarfer, yn eich barn chi?

Oes	15%
Nac oes	85%

Derbyniom lawer o adborth cadarnhaol am gynnwys y canllawiau ymarfer. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

"Mae'r canllawiau ymarfer yn rhoi eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau ac maent wedi'u hysgrifennu mewn fformat clir, hawdd ei ddeall."

"Rwy'n credu bod hon yn ddogfen gadarnhaol iawn a fydd yn galluogi gweithwyr i weld yn glir eu cyfrifoldebau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt."

Hefyd, derbyniom adborth ynghylch yr hyn a oedd ar goll, ym marn y sector, megis:

"Cryfhau cyfathrebu â theuluoedd"

"Cydnabod dynameg deuluol gref ac ymdrin ag aelodau anodd o'r teulu"

"Mae bod yn glir yn bwysig wrth gyfathrebu â theuluoedd"

Lle bo modd, rydym wedi gwneud newidiadau i'r canllawiau ymarfer. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r canllawiau ymarfer gwmpasu popeth. Disgwylir i weithwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol, gan gymhwyso egwyddorion cyffredinol y canllawiau a chael cyngor gan reolwyr lle bo angen.

Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i dynnu sylw at y baich cynyddol sydd ar y sector, gan weld y canllawiau ymarfer fel "rhywbeth arall" eto roedd angen iddynt ei wneud. Teimlwn ei bod yn bwysig pwysleisio bod y canllawiau hyn wedi'u datblygu i helpu'r sector i gyflawni'r safonau uchaf posibl mewn gofal cymdeithasol. Maent yn adeiladu ar y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a'u nod yw helpu i sicrhau nad yw gweithwyr yn disgyn yn is na'r safonau hynny, ac nad yw unrhyw weithredu neu hepgor ar eu rhan yn niweidio llesiant unigolion.

Derbyniom sylwadau ynghylch sicrhau bod yr iaith yn adlewyrchu'n well yr iaith a ddefnyddir yn adroddiad *Lle i'w Alw'n Gartref?* y Comisiynydd Pobl Hŷn. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys gwneud newidiadau i adlewyrchu rôl gweithwyr cartref gofal i oedolion wrth ddarparu cymorth:

"ar gyfer gweithgareddau bywyd bob dydd, a chynnal annibyniaeth; cymorth â gweithgareddau cymdeithasol, a datblygu a chynnal perthnasoedd yn ogystal â chymorth o ran iechyd a lleisiant."

Rydym wedi ystyried yr adborth hwn a byddwn yn gwneud newidiadau i'r fersiwn derfynol.

Hefyd, byddwn yn gwneud newidiadau i adlewyrchu'r canllawiau statudol ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol. Er enghraifft, byddwn yn dileu'r cyfeiriadau at "ofalwyr", oherwydd nid yw aelodau'r teulu'n cael eu diffinio'n gyfreithiol fel gofalwyr bellach, ar ôl i unigolion symud i gartrefi gofal.

Yn ddiweddar, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol*, felly byddwn hefyd yn cynnwys adran newydd am hyn.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r canllawiau ymarfer erbyn 1 Ebrill 2020 i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud fel gweithiwr sydd wedi'i gofrestru'n broffesiynol.

Cofrestru gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd

Gofynnem:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd gofrestru gan ddefnyddio'r cymwysterau a restrir yn y fframwaith cymwysterau presennol?

Cytuno	95%
--------	-----

Anghytuno	5%
-----------	----

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd fel gofyniad cychwynnol o ran cofrestru i weithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd, os nad oes ganddynt un o'r cymwysterau cydnabyddedig?

Cytuno	78%
--------	-----

Anghytuno	22%
-----------	-----

Mae'r cymwysterau a argymhellir ar gyfer gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd yn debyg i'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid gosod y gofynion o ran cymwysterau ar lefel 3 ym mhob achos, ac y dylai'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol fod ar gael hefyd fel llwybr i gofrestru.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Rhaid i ni annog mynediad i'r proffesiwn trwy gael cyn lleied o rwystrau â phosibl rhag cofrestru cychwynnol, gan sicrhau cydnabyddiaeth o egwyddorion a gwerthoedd sylfaenol ar yr un pryd"

"Ond Gofal – dylid ei ystyried fel Proffesiwn sy'n anelu at y safon uchaf – byddai'n wych meddwl y byddai'n ofynnol i bob gofalwr yn y dyfodol gyrraedd o leiaf L3 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh) neu gyfatebol yn eu rolau."

"Maen nhw wedi arfer â chwblhau'r fframwaith sefydlu ar gyfer iechyd a gofal yn y gorffennol, felly mae'n teimlo fel cam yn ôl i orfod ymdrin ag un agwedd ar y rôl yn unig er mai dyma'r agwedd bwysicaf o ran cael y bobl iawn i mewn i'r gweithlu."

Byddwn yn gosod y gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd ac yn eu cyfathrebu cyn i'r Gofrestr agor ar 1 Ebrill 2020.

Cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant

Gofynnwm:

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddefnyddio'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant i gofrestru i ddechrau, os nad oes ganddynt gymhwyster cydnabyddedig?

Cytuno	80%
Anghytuno	20%

Ar hyn o bryd, mae gweithwyr gofal preswyl i blant yn gallu cofrestru trwy gwblhau'r *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer ieuchyd a gofal cymdeithasol* neu trwy gael un o'r cymwysterau lefel 3 cydnabyddedig.

Hefyd, cynigiom ddefnyddio'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant i gofrestru i ddechrau, er mwyn creu cysondeb ymhlith yr holl grwpiau cofrestredig o weithwyr gofal cymdeithasol.

Yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad, esboniodd llawer o reolwyr gofal preswyl i blant sut maen nhw'n defnyddio'r *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan*. Dywedon nhw fod y dull yn gweithio'n dda yn ymarferol ac na fyddent eisiau symud oddi wrth y fframwaith ar gyfer eu staff amser llawn, gan ei fod yn alinio â chyfnod prawf eu staff.

Roedd rheolwyr yn cydnabod y gallai'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd ddarparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer y sawl sy'n fwy newydd i ofal neu sy'n gweithio rhan-amser a heb fodd, cyn iddynt gofrestru, o gwblhau cymhwyster llawn sy'n profi eu gwybodaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â gofal o ansawdd.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"mae profiad ymarferol o'r fframwaith sefydlu presennol wedi dangos bod yr amserlen chwe mis ar gyfer cwblhau yn afrealistig, a hefyd mae angen i'r fframwaith gyfuno'n well â'r cymwysterau newydd"

"Er mwyn cefnogi tegwch, a gweithwyr achlysurol yn enwedig, byddai hyn yn gam cadarnhaol, ond mae angen neges gref y bydd angen cwblhau fframwaith sefydlu Cymru gyfan hefyd ac nid y Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd yn unig"

"Pan mae gennych staff sydd naill ai'n rhan-amser neu'n cyflenwi, sy'n ei chael hi'n anodd cwblhau'r fframwaith sefydlu llawn o fewn yr amserlen ofynnol, mae hynny wedi rhoi pwysau gormodol ar y staff hyn a'r gwasanaeth. Teimlaf y byddai hyn yn fuddiol, ond teimlaf y bydd angen i staff gwblhau'r cyfnod sefydlu llawn wedyn gan fod hyn yn rhoi gwybodaeth a sgiliau sylfaenol da iddynt yn barod iddynt gyflawni'r cymhwyster perthnasol."

Roeddem eisiau safoni'r llwybrau i gofrestru ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr gofal preswyl i blant, trwy gyflwyno'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd fel llwybr cyffredinol i gofrestru. Byddwn yn parhau i wneud hyn, ond daeth yn amlwg o'r ymgynghoriad bod llawer o ymatebwyr yn parhau i fod eisiau cwblhau'r *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan* fel llwybr i gofrestru. Felly, byddwn yn darparu'r ddau lwybr fel ffordd i weithwyr gofrestru yn ystod eu chwe mis cyntaf o gyflogaeth. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ymgeiswyr a chyflogwyr ddewis llwybr sy'n gweddu orau i'w patrwm gwaith a'u cam datblygu.

Newidiadau i gofrestru ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol

Gofynnom:

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gofrestru gweithiwr gofal cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol cofrestredig arall fel rheolwr os yw wedi ymrestru ar y cymhwyster lefel 4, pan na fydd rheolwr arall ar gael i wasanaeth?

Cytuno

80%

Anghytuno

20%

Cynigiom ddull mwy hyblyg o gydnabod pwy sy'n gallu cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol. Cefnogwyd hyn yn dda gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Yn ystod y cyfnod hwn, buom yn cyfarfod a thrafod ein cynigion â'n partner, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Nododd AGC eu bod yn debygol o gytuno â'r egwyddor o ddull mwy hyblyg, ond roeddent eisiau sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ac nad oedd gweithwyr yn cael eu gosod mewn sefyllfaoedd annheg nad oeddent wedi'u paratoi'n ddigonol ar eu cyfer.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Dull pragmatig sy'n cydnabod y bwriad i hyfforddi a nodir trwy ymrestru, ac sy'n caniatáu ar gyfer cefnogaeth ymarferol sydd o fudd i'r gweithiwr gofal cymdeithasol, sy'n paratoi ar gyfer/ag uchelgais o gael rôl rheolwr, ac sydd hefyd yn cydnabod trefniadau rheoli 'ar y llawr'"

"Byddai hwn yn ddull defnyddiol sy'n cydnabod yr anawsterau presennol o ran recriwtio rheolwyr, a bydd yn darparu llwybr gyrfa mwy deniadol i'r gweithwyr gofal hynny sydd eisiau ymgymryd â gwaith rheoli. Byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth glir o ba mor hir y bydd yn dderbyniol i rywun aros ar y gofrestr cyn bod disgwyl iddynt gwblhau lefel 5."

"Teimlwn fod hwn yn syniad da iawn, gan ein bod ni wedi cael yr union broblem hon yn y gorffennol. Mae rhoi cyfle i ddirprwy reolwyr gofrestru fel rheolwr wrth astudio tuag at y cymhwyster perthnasol yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, byddem yn ychwanegu rhyw fath o ofyniad am dystiolaeth sy'n gofyn i'r darparwr gwasanaeth esbonio pa gymorth sydd ganddynt yn ei le i gefnogi'r rheolwr sydd heb gymhwyster llawn i fodloni anghenion defnyddwyr y gwasanaeth."

"Cytunwn yn gyffredinol, gan fod hwn yn ddull pragmatig sy'n galluogi cydnabod realiti gweithredol. Fodd bynnag, byddai pryder pe bai lefelau sylweddol iawn o gofrestradau o'r fath gan y gallai hyn fod yn arwydd o broblemau sylfaenol – boed yn fethiant i ddenu a recriwtio rheolwyr; awydd i dorri costau trwy ddefnyddio trefniadau 'interim' yn y tymor hirach; neu fethiant ar ran y sawl sy'n astudio i gael y cymwysterau gofynnol. Fel y cyfryw, dylid adolygu hyn o fewn tair blynedd gyntaf y cofrestru, er mwyn monitro niferoedd a rhesymau – ac i weld a yw'n parhau'n dderbyniol ai peidio."

Gofynnem hefyd:

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gofrestru'r rheiny sydd â chymhwyster cydnabyddedig ar gyfer cofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol fel gweithiwr cymdeithasol, nyrs neu therapydd galwedigaethol, ynghyd â chymhwyster rheoli generig gyda'r amodau a amlinellir isod?

Cytuno

90%

Anghytuno

10%

Er mwyn ein galluogi i gydnabod cymwysterau cysylltiedig eraill, rydym yn cynnig y dylid caniatáu i'r rheini sydd â chymhwyster cydnabyddedig ar gyfer cofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol fel gweithiwr cymdeithasol, nyrs neu therapydd galwedigaethol, wneud cais i gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol os oes ganddynt gymhwyster rheoli generig hefyd, ar yr amod:

- ei fod wedi'i osod ar lefel 3 o leiaf
- mae'n cynnwys isafswm o 37 credyd
- fe'i haseswyd yn y gweithle ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol, ac roedd y person cofrestredig mewn rôl berthnasol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol pan ymgwymerwyd â'r cymhwyster.

Ni chyfeiriodd ein hymgyngoriad at weithwyr proffesiynol sydd wedi'u cofrestru fel athro gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Fodd bynnag, codwyd hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Rwy'n ymateb i hyn fel rheolwr cartrefi plant ond mae'r mater yr un fath. Credaf fod y cymwysterau'n rhy gul ac nad ydynt yn ystyried profiad pobl a chymwysterau eraill sydd ganddynt a allai fod yn berthnasol. Mae gen i enghraifft o weithiwr achlysurol sy'n athro cymwys. Rydym yn rhedeg ysgol ar gyfer anghenion arbennig gyda darpariaeth breswyl. Mae'r aelod o'r staff yn athro yn yr ysgol ac yn adnabod yr holl blant. Mae ganddo'r holl gymwysterau sydd eu hangen arnom i weithio mewn ffordd therapiwtig, yn yr ysgol ac yn yr uned breswyl. Mae'n gofyn gormod, i'w orfodi i wneud y cymhwyster hwn ar ben hynny, yn enwedig gan mai gweithiwr achlysurol ydyw ar gyfer y ddarpariaeth breswyl."

"Mae angen i ni fabwysiadu rhywfaint o hyblygrwydd a chaniatáu ar gyfer barn broffesiynol yn hytrach na chydymffurfiad cadarn â rhestr o gymwysterau. Er enghraifft, yn ddiweddar, penodom aelod o staff sydd â gradd Meistr a chymhwyster rheoli lefel meistr, na ellid eu cofrestru fel rheolwr gan nad yw'r cymhwyster hwnnw ar y rhestr. Nawr, maen nhw'n gwneud eu lefel 4, sydd ar lefel is o lawer yn academiaidd, er mwyn cydymffurfio. Mae'r gwasanaethau iechyd hefyd yn defnyddio'r rhaglen meistr fel eu lefel cymhwysedd rheolaethol dewisol, felly mae angen i gofrestru ganiatáu ar gyfer sgiliau trosglwyddadwy rhwng iechyd a gofal cymdeithasol."

"Os oes gan weithwyr gymhwyster cydnabyddedig a chofrestriad proffesiynol, fel y nodir, mae'n ymddangos yn synhwyrol i gefnogi a chydabod cymhwyster rheoli generig. Mae'n golygu bod sgiliau proffesiynol yn ogystal â chymhwysedd yn cael eu cydnabod, ochr yn ochr â'r sgiliau a'r anghenion hyfforddiant penodol ar gyfer y rhai sy'n ymgymryd â rôl reoli."

“Hoffem weld mwy o gydnabyddiaeth o statws y Radd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nad yw’n cael ei chydabod at ddibenion cofrestru ar hyn o bryd, er bod pobl sydd â’r radd yn cael eu gwrthod am gyllid ar gyfer y cymwysterau lefel 5 oherwydd bod colegau’n dweud eu bod yn rhy debyg i’r radd.”

Dangosodd yr ymgynghoriad fod awydd iach am ddull mwy hyblyg tuag at gofrestru rheolwyr gofal cymdeithasol. Byddwn yn meddwl ymhellach am hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal safonau, ac ar yr un pryd yn darparu ffordd bragmatig i wasanaethau gyflawni eu cyfrifoldeb o fod â rheolwr cofrestredig. Mae’r llwybr hwn yn debygol o gael ei lywio gan lansiad y cymwysterau rheoli lefel 4 newydd ym mis Medi 2020 a byddwn yn diweddarau’r sector ar ein cynlluniau maes o law.

Er mwyn hyrwyddo integreiddio rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol ag uchelgais *Cymru Iachach*, rydym yn bwriadu caniatáu i nyrsys a therapyddion galwedigaethol wneud cais i gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol os oes ganddynt gymhwyster rheoli generig ar lefel 3 o leiaf, ac fe’u haseswyd ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol mewn lleoliad iechyd a gofal.

Byddwn yn ystyried y gofynion rheoli ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd wedi’u cofrestru â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys athrawon. Hefyd, byddwn yn archwilio ffyrdd y gellid ystyried y radd mewn iechyd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr â’n gofynion presennol o ran cymwysterau.

Talu ffioedd

Gofynnem:

A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno cofrestriad amodol ar gyfer blynyddoedd dau a thri yn ystod cofrestriad unigolyn am dair blynedd? Mae hyn yn golygu y byddai cofrestriad yr unigolyn yn ystod y blynyddoedd hyn dim ond yn weithredol pan rydym wedi derbyn y ffi briodol.

Cytuno	76%
Anghytuno	24%

Yn flaenorol, buom yn ymgynghori ynghylch lefel y ffioedd hyn ac rydym wedi nodi ein strwythur ffioedd presennol ac ar gyfer y dyfodol¹. Mae'r ffioedd hyn yn darparu cyfraniad hanfodol i'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y Gofrestr ac i gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â diogelu'r cyhoedd, megis achosion addaswydd i ymarfer.

Mae'r cynnig i symud i gofrestrriad amodol ar gyfer blynyddoedd dau a thri yn ystod cylch cofrestru tair blynedd unigolyn, sy'n dibynnu ar dalu ffioedd, yn newid gweinyddol. Bydd y newid hwn yn caniatáu i ni gynnal cofrestr gywir, gan na fydd y sawl nad ydynt yn talu ac sydd wedi gadael y sector yn ymddangos mwyach ar y Gofrestr.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Mae hwn yn ddull pragmatig o ymdrin â mater cydnabyddedig, a thrwy wneud hyn yn glir ymlaen llaw, dylai fod o gymorth i'r sector. Fodd bynnag, saif y cwestiwn ynghylch beth allai ddigwydd pe bai sefydliad â nifer sylweddol o staff sydd 'wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr' oherwydd nad ydynt wedi talu'r ffi."

"Rwy'n cytuno'n llwyr â hyn, rhaid bod gennych rywfaint o reolaeth dros gyllid – fodd bynnag, fel cyflogwr, mae'n rhaid i ni gael gwybod am hyn bob amser, nid wyf eisiau bod mewn sefyllfa o fod wedi cyflogi pobl ac yn dod i wybod yn ddiweddarach eu bod heb eu cofrestru"

"Rwy'n pryderu y gallai rhai pobl fethu eu taliad am resymau dealladwy, felly oni bai bod proses apelio gadarn, ni fyddwn yn cefnogi hyn."

Byddwn yn gweithredu ein cynnig i symud i gofrestrriad amodol ar gyfer blynyddoedd dau a thri yn ystod cylch cofrestru tair blynedd unigolyn, gan y bydd hyn yn caniatáu i ni gynnal cofrestr gywir ac effeithlon.

1. gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd-cofrestru

Dyfodol cofrestru

Gofynnem:

Byddem yn croesawu'ch safbwyntiau ar ein syniadau i gael Cofrestr symlach.

A fyddai categorïau ehangach yn gysylltiedig â'r rheiny sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol oedolion neu blant yn fwy priodol nag is-gategorïau ar wahân fel sy'n wir ar hyn o bryd?

Neu a fydddech yn cefnogi'r syniad i greu pedwar categori o fewn ein Cofrestr – gweithiwr cymdeithasol, rheolwr gofal cymdeithasol, gweithiwr gofal cymdeithasol a myfyriwr gwaith cymdeithasol?

Byddem wir yn gwerthfawrogi'ch safbwyntiau ar fuddion a risgiau posibl hyn.

Mae ymestyn y Gofrestr yn codi cwestiynau o ran statws proffesiynol ar draws y sector gofal cymdeithasol. A oes angen i weithiwr gofal cartref fod â chymwyseddau gwahanol i weithiwr cartref gofal i oedolion? A allem ddisodli categorïau gweithiwr cartref gofal i oedolion a gweithiwr gofal cartref a chael un categori ar gyfer "gweithiwr gofal cymdeithasol oedolion"? A allem leihau'r cymhlethdod o amgylch rolau gweithwyr cofrestredig mewn lleoliadau gofal cymdeithasol plant?

Yn y tymor hirach, credwn y byddai'n werth archwilio model o bedwar categori o bersonau cofrestredig – gweithiwr cymdeithasol, rheolwr gofal cymdeithasol, gweithiwr gofal cymdeithasol a myfyriwr gwaith cymdeithasol. Byddai hyn yn dileu'r gwahaniaeth rhwng gofal cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol oedolion o'r Gofrestr.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Rydym yn cefnogi'r syniad o'r pedwar categori o fewn y gofrestr, gan ein bod yn credu y byddai'r gofynion ar gyfer cofrestru a diweddarau yn fwy penodol i rôl ac yn symlach."

"Rwy'n cytuno â'r 4 is-gategori sydd gennych. Rwy'n credu mai'r drefn symlaf sydd orau. Nid wyf yn teimlo bod angen creu cofrestr ar gyfer oedolion a phlant. Gall gweithwyr newid rhwng y ddau, felly mae angen i wybodaeth fod ar gael i ddiogelu pawb dan sylw."

"Teimlaf y byddai hyn o fudd i'r unigolion agored i niwed sy'n cael eu cynorthwyo gan weithwyr gofal mewn llawer o leoliadau amrywiol er mwyn sicrhau bod y bobl maent yn gweithio â nhw yn cael eu diogelu rhag niwed. Hefyd, teimlaf y byddai hyn yn sicrhau y bydd y proffesiwn gofal cymdeithasol yn cael ei ddal i safon uwch â chydabyddiaeth well i'r gweithwyr sy'n gweithio'n galed ac sy'n dda iawn yn eu gwaith."

"Mae cadw pethau'n syml yn cynorthwyo bob amser. Byddai nifer fach o gategorïau eang yn beth call, a chydabod a chefnogi unigolion sy'n symud rhwng rhannau gwahanol o'r sector gofal, gan ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r dysgu a'r cymwysterau ychwanegol sy'n angenrheidiol os yw gweithiwr, er enghraifft, yn trosglwyddo o faes oedolion i faes plant neu i'r gwrthwyneb."

"Byddai angen gallu adrodd ar y data sy'n rhan o'r cofrestrriad er mwyn llywio cynllunio'r gweithlu, e.e. byddai angen i ni allu parhau i gymharu maes plant a maes oedolion"

Gofynnem hefyd:

A ydych chi'n cytuno â'n hawgrym i ddod â rheolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig at ei gilydd mewn un categori ar y Gofrestr, o'r enw 'rheolwr gofal cymdeithasol'?

Cytuno	80%
Anghytuno	20%

I reolwyr, bydd y fframwaith cymwysterau newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cychwyn eleni yn dileu'r cymwysterau penodol sy'n ymwneud â mathau o leoliadau, megis rheolwyr cartrefi gofal i oedolion. Bydd hyn yn gwneud y gwahaniaeth ar y Gofrestr rhwng rheolwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau gwahanol yn llai perthnasol, gan y bydd y sawl sy'n cwblhau'r cymhwyster yn gallu'i ddefnyddio mewn lleoliadau gwasanaethau gwahanol.

Gallai un categori wneud pethau'n haws i gyflogwyr ac i reolwyr, yn enwedig wrth i ni weld mathau newydd o wasanaethau'n dod i'r amlwg sy'n cyfuno, dyweder, cartref gofal i oedolion a gwasanaethau cymorth cartref.

Dyma ddetholiad o sylwadau gan y sawl a ymatebodd:

"Bydd hyn yn briodol, ar yr amod bod gan y rheolwr yr hyfforddiant ychwanegol priodol, e.e. os yw rheolwr cartref gofal i oedolion yn symud i gartref gofal i blant, bydd rhaid iddo ef neu hi gael hyfforddiant priodol mewn gwasanaethau i blant cyn dechrau yn y rôl – mae hyn yn gyfrifoldeb nid yn unig i'r cyflogwr ond hefyd yn ddyletswydd broffesiynol yr unigolyn yn ogystal â dyletswydd rheoleiddiwr y gwasanaeth."

"Er y gallai fod rhywfaint o debygrwydd rhwng rhai rolau ar draws y sector, mae gofal plant yn gofyn am sgiliau gwahanol i ofal oedolion a gallai dileu'r categorïau olygu gor-symleiddio arbenigedd a chymhlethdod y rolau... Nid oes unrhyw wendid mewn system a phroses sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi setiau gwahanol o sgiliau sy'n briodol i faes ymarfer penodol. Er enghraifft, mae'n fuddiol i blant dderbyn gofal gan dîm sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant perthnasol i ofalu am blant."

Crynodeb o'r camau nesaf

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, naill ai trwy fynychu ein digwyddiadau neu anfon ymateb ysgrifenedig atom. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, byddwn nawr yn mireinio ein gofynion er mwyn darparu eglurder a chysondeb i'r gweithlu ddod yn broffesiynol gofrestredig.

Byddwn yn gosod y gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion a gweithwyr cymorth canolfannau preswyl i deuluoedd ac yn eu cyfathrebu, cyn i'r Gofrestr agor ar 1 Ebrill 2020.

Hefyd, byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion cyn 1 Ebrill 2020 er mwyn helpu'r sector i ddeall y safonau a ddisgwyllir gan weithwyr pan fyddant wedi'u cofrestru'n broffesiynol.

Roeddem eisiau safoni llwybrau i gofrestru ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr gofal preswyl i blant, trwy gyflwyno'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd fel llwybr cyffredinol i gofrestru. Byddwn yn parhau i wneud hyn, ond daw'n amlwg trwy'r ymgynghoriad bod llawer yn parhau i fod eisiau cwblhau'r *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan* fel llwybr i gofrestru.

Felly, byddwn yn darparu'r ddau lwybr fel ffordd i weithwyr gofrestru yn eu chwe mis cyntaf o gyflogaeth. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ymgeiswyr a chyflogwyr ddewis llwybr sy'n gweddu orau i'w patrwm gwaith a'u cam datblygu.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod awydd iach am ddull mwy hyblyg o gofrestru rheolwyr gofal cymdeithasol. Byddwn yn meddwl ymhellach am hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal safonau, ac ar yr un pryd yn darparu ffordd pragmatig i wasanaethau gyflawni eu cyfrifoldeb o fod â rheolwr cofrestredig. Mae'r llwybr hwn yn debygol o gael ei lywio gan lansiad y cymwysterau rheoli lefel 4 newydd ym mis Medi 2020 a byddwn yn diweddarau'r sector ar ein cynlluniau maes o law.

Byddwn yn ystyried y gofynion rheoli ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u cofrestru â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys athrawon. Hefyd, byddwn yn archwilio ffyrdd y gellid ystyried y radd mewn iechyd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr â'n gofynion presennol o ran cymwysterau.

Byddwn yn cyflwyno ein cynnig i symud i gofrestrriad amodol ar gyfer blynyddoedd dau a thri yn ystod cylch cofrestru tair blynedd unigolyn, gan y bydd y newid gweinyddol hwn yn ein galluogi i gynnal cofrestr gywir ac effeithlon.

Er bod cefnogaeth o blaid cofrestr symlach yn y dyfodol, byddwn yn blaenoriaethu cofrestru'r grwpiau newydd o weithwyr cyn i ni wneud unrhyw newidiadau pellach i'r categorïau. Bydd y cymwysterau rheoli newydd sy'n cael eu lansio ym mis Medi yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n eu cwblhau o ran ble maen nhw'n gweithio, ac mae'n bosibl y byddwn yn diweddarau'r categori rheolwr i alinio â'r newid hwn.

Yn y pen draw, rydym eisiau datblygu system gofrestru sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi bod yn addysgiadol iawn o ran llunio dull newydd.